

Pembrokeshire Leisure Hamdden Sir Benfro



Siarter Cwsmeriaid

Bydd ein holl Ganolfannau:

- yn lân, yn ddiogel ac yn cael eu cynnal yn dda;
- yn cynnal rhaglen amrywiol o weithgareddau a gwasanaethau;
- yn cadw at safonau technegol eglur;
- yn cynnig gwasanaethau sydd am bris cystadleuol i sicrhau gwerth am yr arian a diwallu anghenion cwsmeriaid a nodwyd trwy arolygon defnyddwyr;
- yn cyhoeddi amser ac argaeledd gwasanaethau yn ein taflenni hysbysrwydd cwsmeriaid, ac ar ein gwefan;
- yn dweud am unrhyw newidiadau a ragwelwyd trwy arddangos rhybudd yn y Ganolfan ac ar ein gwefan.

Y prif bwll nofio i fod:

- yn cael ei gynnal ar 27°C fan leiaf;
- yn gemegol gytbwys ac yn cael ei brofi'n rheolaidd i sicrhau cysur a diogelwch ymdrochwr;
- dan oruchwyliaeth y nifer cymeradwy o staff cymwysedig a hyfforddedig;
- yn cael ei gadw mewn cyflwr cynnes, glân, diogel a glanwaith.

Y pwll nofio bach / traeth i fod:

- yn cael ei gynnal ar 29°C fan leiaf;
- yn gemegol gytbwys ac yn cael ei brofi'n rheolaidd i sicrhau cysur a diogelwch ymdrochwr;
- dan oruchwyliaeth y nifer cymeradwy o staff cymwysedig a hyfforddedig;
- yn cael ei gadw mewn cyflwr cynnes, glân, diogel a glanwaith.

Yr ardaloedd chwaraeon / gweithgaredd sych i fod:

- yn lân a diogel i'w defnyddio;
- gydag offer sydd mewn cyflwr da, yn cael ei wirio a'i gynnal yn rheolaidd;
- yn cael eu trefnu'n unol â gofynion corff cenedlaethol y chwaraeon lle bo angen;
- yn barod i'w defnyddio o fewn pum munud i ddechrau'r cyfnod llogi pan fo angen newid offer;
- Canolfannau i gael eu goleuo, twymo ac awyru er mwyn sicrhau cysur, amgylchiadau chwarae da a diogelwch; staff i gael eu hyfforddi a bod â chymwysterau priodol; yn hawdd eu hadnabod trwy wisgo'u lifreion a bathodynau enw bob amser; yn gymwynasgar, profiadol a llawn gwybodaeth i sicrhau bod eich ymweliad yn ddiogel a phleserus;
- Holl ardaloedd ategol, gan gynnwys ystafelloedd newid, cawodydd a thoiledau i fod:
 - yn lân, glanwaith ac mewn cyflwr da;
 - yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan staff a chamau adfer yn cael eu cymryd pan fo angen;
 - yn cael eu cynnal ar dymheredd sy'n gysurus ac yn cyd-fynd ag eraill.

Yr iaith Gymraeg

Mae croeso ac anogaeth i bob cwsmer i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y ganolfan.

Cynhwysiad

Mae'r canolfannau yn cydymffurfio'n llawn a Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Mae nifer o ddarnau offer yn yr Ystafell Ffitrwydd wedi'u cynllunio'n arbennig fel bod defnyddwyr anabl yn gallu cymryd rhan. Mae gennym nifer o declynnau codi a gwelyau newid, toiled a chyfleusterau newid ar y llawr gwaelod i'r ardaloedd sych a gwlyb ar gyfer yr anabl.